Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary's Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: ATISN 15373
Dyddiad: 27 Awst 2021

Annwyl ,

**ATISN 15373**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 1 Awst 2021. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

> O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn wybod ar gyfer
>
> a/2019
> b/2020
> c/ hyd yn hyn yn 2021
>
> faint o weithiau y torrwyd y Ddeddf Diogelu Data. Ym mhob achos hoffwn wybod ym mha ffordd y torrwyd y ddeddf, a pha gamau y cymrwyd wedi'r toriad yn erbyn yr aelod/au o staff ac unrhyw gamau eraill.
>
> faint o achosion a gofnodwyd o staff yn camddefnyddio gwefannau cymdeithasol fel Facebook, Twitter neu appiau fel WhatsApp, boed hynny yn y gweithle neu'r tu allan. Ym mhob achos, disgrifiwch beth oedd y camddefnydd, nodwch pa wefan/app a ddefnyddiwyd, a pha gamau a gymrwyd yn erbyn yr aelod o staff.

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru
Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

**Torri'r Ddeddf Diogelu Data**

Torri'r Ddeddf Diogelu Data - 2019

| **Disgrifiad** | **Nifer y Digwyddiadau** | **Yr adran o'r Ddeddf a dorrwyd** | **Camau a gymerwyd yn erbyn yr aelod staff yn sgil torri'r Ddeddf, ac unrhyw gamau eraill** |
|---|---|---|---|
| Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad oedd wedi'u gwarchod yn ddigonol, o safle diogel y Llywodraeth | 2 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion a chynhaliwyd chwiliadau. Ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn staff. |
| Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad oedd wedi'u gwarchod yn ddigonol, o'r tu allan i safle diogel y Llywodraeth | 7 | Egwyddor 7 | Ymchwilwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 1 achos cafodd gwrthrych y data gynnig diogelwch o dan Gynllun Cifas (gwasanaeth atal twyll).<br>• Mewn 1 achos cafodd cyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol eu hadolygu a'u diweddaru. |
| Datgelu heb awdurdod | 113 | Egwyddor 7 | Ymchwilwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 6 achos cyfeiriwyd staff at Adnoddau Dynol. Mewn 1 achos, cymerwyd camau disgyblu, yn y 5 achos arall ymchwiliwyd i'r achos a chymerwyd camau anffurfiol<br>• Mewn 2 achos cafodd gwrthrych y data gynnig diogelwch o dan Gynllun Cifas (gwasanaeth atal twyll).<br>• Mewn 12 achos cafodd cyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol eu hadolygu a'u diweddaru.<br>• Mewn 2 achos cafodd cyfarwyddiadau desg eu llunio.<br>• Mewn 10 achos fe wnaeth staff ail-wneud yr hyfforddiant gorfodol.<br>• Mewn 7 achos cafodd staff eu hatgoffa am gyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Mewn 4 achos darparwyd hyfforddiant ychwanego i staff ar ddiogelu gwybodaeth.<br>• Mewn 4 achos fe wnaeth staff ddiffodd y cyfleuster awto-lenwi e-bost yn Outlook. |
| Arall | 4 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 1 achos cyfeiriwyd yr staff at Adnoddau Dynol. Ymchwiliwyd i'r achos a chymerwyd camau anffurfiol.<br>• Mewn 1 achos cafodd staff eu hatgoffa am gyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol. |

Torri'r Ddeddf Diogelu Data – 2020

| **Disgrifiad** | **Nifer y Digwyddiadau** | **Yr adran o'r Ddeddf a dorrwyd** | **Camau a gymerwyd yn erbyn yr aelod staff yn sgil torri'r Ddeddf, ac unrhyw gamau eraill** |
|---|---|---|---|
| Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad oedd wedi'u gwarchod yn ddigonol, o safle diogel y Llywodraeth | 1 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r achos a chynhaliwyd chwiliad. |
| Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad oedd wedi'u gwarchod yn ddigonol, o'r tu allan i safle diogel y Llywodraeth | 6 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 2 achos cyfeiriwyd staff at Adnoddau Dynol. Ymchwiliwyd i'r achosion a chymerwyd camau anffurfiol.<br>• Mewn 1 achos gofynnwyd i staff ailgymryd hyfforddiant gorfodol. |
| Datgelu heb awdurdod | 101 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 15 achos, cyfeiriwyd staff at Adnoddau Dynol. Mewn 2 achos, cafodd y weithdrefn Tanberfformio ei defnyddio. Ymchwiliwyd i'r 13 achos arall a chymerwyd camau anffurfiol<br>• Cyfeiriwyd 1 achos at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br>• Mewn 3 achos fe wnaeth staff ddiffodd y cyfleuster awto-lenwi e-bost yn Outlook. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Mewn 9 achos cafodd cyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau eu hadolygu a'u diweddaru.<br>• Mewn 5 achos cafodd cyfarwyddiadau desg eu llunio.<br>• Mewn 26 achos fe wnaeth staff ail-wneud hyfforddiant gorfodol.<br>• Mewn 13 achos, cafodd staff eu hatgoffa am gyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol. |
| Arall | 3 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion.<br>• Mewn 2 achos, cyfeiriwyd staff at Adnoddau Dynol. Mewn un achos ymchwiliwyd i'r achos a chymerwyd camau anffurfiol. Mewn un achos cymerwyd camau disgyblu. |

Torri'r Ddeddf Diogelu Data – 2021 (mis Ionawr i fis Gorffennaf)

| **Disgrifiad** | **Nifer y Digwyddiadau** | **Yr adran o'r Ddeddf a dorrwyd** | **Camau a gymerwyd yn erbyn yr aelod staff yn sgil torri'r Ddeddf, ac unrhyw gamau eraill** |
|---|---|---|---|
| Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur nad oedd wedi'u gwarchod yn ddigonol, o'r tu allan i safle diogel y Llywodraeth | 2 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion a chynhaliwyd chwiliadau. |
| Datgelu heb awdurdod | 72 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r holl achosion a chymerwyd camau anffurfiol.<br>• Mewn 7 achos, cyfeiriwyd staff at Adnoddau Dynol. Ymchwiliwyd i'r achosion a chymerwyd camau anffurfiol<br>• Cyfeiriwyd 4 achos at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br>• Mewn 10 achos cafodd staff eu hatgoffa am gyfarwyddiadau desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol.<br>• Mewn 4 achos cafodd cyfarwyddiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | desg/dogfennau polisi/canllawiau perthnasol eu hadolygu a'u diweddaru.<br>• Mewn 5 achos cafodd cyfarwyddiadau desg eu llunio.<br>• Mewn 1 achos gofynnwyd i staff ddiffodd cyfleuster awto-lenwi e-bost yn Outlook.<br>• 21 aelod o staff yn ail-wneud hyfforddiant gorfodol.<br>• Mewn un achos mae hyfforddiant diogelwch gwybodaeth yn cael ei ddarparu i staff. |
| Arall | 1 | Egwyddor 7 | Ymchwiliwyd i'r achos. |

**Camddefnyddio gwefannau cymdeithasol neu apiau 2019**

| Math o wefan | Camddefnydd | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Facebook | Ysgrifennu sylwadau difrïol a ar dudalen Facebook trydydd parti. | Ymchwiliwyd i'r achos a chymerwyd camau anffurfiol |

**Camddefnyddio gwefannau cymdeithasol neu apiau 2020**

| Math o wefan | Camddefnydd | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Dim | | |

**Camddefnyddio gwefannau cymdeithasol neu apiau 2021**

| Math o wefan | Camddefnydd | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Instagram | Postio ffotograff yn mynd yn groes i Bolisi Diogelwch Llywodraeth Cymru. | Ymchwiliwyd i'r achos a chymerwyd camau anffurfiol |
| WhatsApp | Datgelu gwybodaeth a beirniadu Gweinidogion. | Ymchwiliwyd i'r achos honedig o dorri'r Ddeddf ac ni chanfuwyd unrhyw achos i'w ateb |